# Taflen Wybodaeth y Claf 7

## Deddf Iechyd Meddwl 1983

## Adran 17A: Triniaeth Gymunedol Dan Oruchwyliaeth

Eich Clinigwr â Chyfrifoldeb yw:

| |
|---|
| |

Dechreuodd eich triniaeth gymunedol dan oruchwyliaeth dan adran 17A ar:

| |
|---|
| |

### Beth yw triniaeth gymunedol dan oruchwyliaeth?

Diben triniaeth gymunedol dan oruchwyliaeth yw galluogi cleifion cymwys i gael eu trin yn ddiogel yn y gymuned yn hytrach na than amodau cadw mewn ysbyty. Bwriad triniaeth gymunedol dan oruchwyliaeth yw eich helpu i gadw eich iechyd meddwl yn sefydlog y tu allan i'r ysbyty a'ch helpu i wella.

### Pam yr wyf yn cael triniaeth gymunedol dan oruchwyliaeth?

Mae eich clinigwr â chyfrifoldeb a'ch proffesiynolyn iechyd meddwl cymeradwy o'r farn bod modd trin eich anhwylder meddyliol presennol yn ddiogel yn y gymuned ar hyn o bryd. Maent wedi eich rhoi dan Orchymyn Triniaeth Gymunedol sy'n rhan o driniaeth gymunedol dan oruchwyliaeth.

### Pa amodau y bydd yn rhaid i mi gadw atynt?

Bydd y Gorchymyn Triniaeth Gymunedol yn cynnwys amodau ysgrifenedig y bydd gofyn i chi gadw atynt. Mae pob Gorchymyn Triniaeth Gymunedol yn cynnwys yr amodau canlynol:

- y byddwch, os cewch gais i wneud hynny, yn sicrhau eich bod ar gael ar gyfer archwiliad gan eich clinigwr â chyrifoldeb os bydd yn ystyried bod angen i chi barhau i gael triniaeth gymunedol dan oruchwyliaeth am fwy na chwe mis;
- y byddwch, os cewch gais i wneud hynny, yn sicrhau eich bod ar gael ar gyfer archwiliad gan feddyg annibynnol (a elwir yn feddyg a benodwyd i roi ail farn) fel y gall y meddyg hwnnw roi tystysgrif ar gyfer triniaeth.

Gall eich clinigwr â chyfrifoldeb osod amodau eraill hefyd os ydynt yn berthnasol i'ch amgylchiadau unigol. Os yw'n briodol, bydd eich gofalwr a phobl berthnasol eraill megis aelodau o'ch teulu'n rhan o'r drafodaeth wrth ystyried yr amodau sy'n addas ar eich cyfer chi.

Gallai'r amodau hynny gynnwys:

- amod sy'n nodi ble y mae'n rhaid i chi fyw
- amod sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer rhoi triniaeth i chi yn y gymuned.

Bydd yr holl resymau dros unrhyw amod y byddwch yn rhwym wrtho'n cael eu hesbonio i chi ymlaen llaw.

## Cynlluniau gofal

Bydd gennych 'gynllun gofal' unigol. Byddwch yn cael asesiad yn rhan o'r cynllun hwnnw, a bydd eich gofal a'ch triniaeth yn cael eu seilio ar eich cryfderau personol. Os ydych yn dymuno, byddwch ynghlwm wrth weithredu eich cynllun gofal eich hun yn ogystal â bod ynghlwm wrth ei gynllunio.

Bydd gennych gydlynydd i ddatblygu eich cynllun gofal, a bydd yn cysylltu â phobl eraill sydd â diddordeb perthnasol yn eich gofal, gan gynnwys eich clinigwr â chyfrifoldeb, eich gweithiwr cymdeithasol, eich gofalwr os oes gennych un, a'ch perthynas agosaf os byddwch yn cytuno â hynny.

Wedi iddo gael ei ddatblygu, bydd eich cynllun gofal yn nodi'r amserlenni y cytunwyd arnynt ar gyfer gweithredu agweddau amrywiol ar y cynllun. Bydd yr agweddau hynny'n cynnwys eich triniaeth feddygol a'ch gofal iechyd corfforol.

Bydd eich cynllun gofal yn cael ei gofnodi'n ysgrifenedig, a gallwch ei lofnodi os ydych yn dymuno. Byddwch yn cael copi ohono hefyd.

I gael mwy o wybodaeth am yr hyn y bydd eich cynllun gofal yn ei gynnwys, gofynnwch am gopi o'r llyfryn 'Tawelwch Meddwl' sy'n sôn am God Ymarfer Cymru.

## Cael eich galw'n ôl i'r ysbyty

Os byddwch yn teimlo unrhyw bryd bod angen i chi fynd yn ôl i'r ysbyty i gael rhagor o ofal a thriniaeth, dylech siarad ar unwaith â'ch clinigwr â chyfrifoldeb a all drefnu eich bod yn mynd i'r ysbyty.

Fodd bynnag, os byddwch yn torri eich amodau tra byddwch yn cael triniaeth gymunedol dan oruchwyliaeth yn y gymuned, gall eich clinigwr â chyfrifoldeb arfer ei bŵer i'ch galw'n ôl i'r ysbyty i gael triniaeth os bydd yn teimlo bod hynny'n briodol. Yn ogystal, gall eich clinigwr â chyfrifoldeb eich galw'n ôl i'r ysbyty os yw'n credu eich bod yn dechrau mynd yn sâl a bod angen i chi gael eich derbyn i'r ysbyty eto.

Mae Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn caniatáu hynny oherwydd adran 17E. Os byddwch yn cael eich galw'n ôl i'r ysbyty, gellir eich cadw yno am hyd at 72 awr (tri diwrnod) a byddwch yn cael taflen arall i egluro beth fydd yn digwydd.

## Gwasanaeth Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol

Bydd modd i chi ddefnyddio'r gwasanaeth eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol, sy'n wasanaeth cyfrinachol. Bydd y gwasanaeth hwn yn rhoi cymorth i chi ac yn eich helpu i ddeall y Ddeddf.

Bydd y gwasanaeth yn eich helpu i gael gwybodaeth am eich hawliau cyfreithiol, unrhyw driniaeth feddygol y gallech chi fod yn ei chael, a'r modd y gallwch apelio yn erbyn eich gorchymyn triniaeth gymunedol.

Os ydych yn cael unrhyw drafferth deall y daflen hon, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill, gallwch ofyn i'r gwasanaeth eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol am help.

## Pa driniaeth y byddaf i'n ei chael?

Bydd y clinigwr cymeradwy sydd â gofal am eich triniaeth yn siarad â chi am unrhyw driniaeth sydd ei hangen arnoch ar gyfer eich anhwylder meddyliol. Byddwch yn rhan o bob penderfyniad ynghylch unrhyw driniaeth y gallech chi ei chael yn y gymuned. Byddwch hefyd yn rhan o bob penderfyniad ynghylch sut a ble y byddwch yn cael y driniaeth honno.

Bydd meddyg annibynnol (a elwir yn feddyg a benodwyd i roi ail farn) yn eich gweld yn ystod y mis cyntaf wedi i chi gael eich rhyddhau o'r ysbyty i gael triniaeth gymunedol dan oruchwyliaeth, er mwyn trafod pa driniaeth y gallech chi ei chael.

Os byddwch yn methu cadw at eich triniaeth, gall eich clinigwr â chyfrifoldeb arfer ei bŵer i'ch galw'n ôl i'r ysbyty i gael y driniaeth honno.

## Am ba hyd y bydd yn rhaid i mi gael triniaeth gymunedol dan oruchwyliaeth?

Bydd yn rhaid i chi barhau i gael triniaeth gymunedol dan oruchwyliaeth am chwe mis oni bai fod eich clinigwr â chyfrifoldeb yn penderfynu nad oes ei hangen arnoch mwyach. Os bydd eich clinigwr â chyfrifoldeb o'r farn bod angen i chi barhau i gael triniaeth gymunedol dan oruchwyliaeth am fwy o amser, gall ymestyn eich triniaeth gymunedol dan oruchwyliaeth am hyd at chwe mis arall, ac yna am hyd at flwyddyn ar y tro. Bydd eich clinigwr â chyfrifoldeb yn sôn wrthych am hynny tua diwedd pob cyfnod.

## A allaf i apelio?

Os byddwch am beidio â bod dan orchymyn triniaeth gymunedol, dylech drafod hynny â'ch clinigwr â chyfrifoldeb neu'ch proffesiynolyn iechyd meddwl cymeradwy.

Yn ogystal, gallwch chi (neu'ch perthynas agosaf) ofyn i reolwyr yr ysbyty sydd â chyfrifoldeb amdanoch eich rhyddhau o driniaeth gymunedol dan oruchwyliaeth. Fel rheol, yr ysbyty yr oeddech ynddo cyn dechrau cael triniaeth gymunedol dan oruchwyliaeth fydd yr ysbyty sydd â chyfrifoldeb amdanoch. Byddwch yn cael gwybod os bydd yr ysbyty hwnnw'n newid.

Os byddwch am i reolwyr yr ysbyty eich rhyddhau chi, ysgrifennwch atynt yn y cyfeiriad canlynol:
(Gwybodaeth i'w hychwanegu yn lleol)

Gallwch ofyn hefyd i Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru eich rhyddhau o orchymyn triniaeth gymunedol dan oruchwyliaeth. Gallwch wneud cais i'r Tribiwnlys unrhyw bryd yn ystod chwe mis cyntaf eich triniaeth gymunedol dan oruchwyliaeth. Gallwch wneud cais arall i'r Tribiwnlys os bydd eich clinigwr â chyfrifoldeb o'r farn bod angen i chi aros dan orchymyn triniaeth gymunedol am chwe mis arall. Wedi hynny, gallwch wneud cais unwaith yn ystod pob blwyddyn y byddwch yn parhau i fod dan y gorchymyn.

## Beth sy'n digwydd mewn gwrandawiad o flaen Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru?

Mae'r Tribiwnlys yn annibynnol ar yr ysbyty sydd â chyfrifoldeb amdanoch. Bydd aelodau'r Tribiwnlys yn dod i gwrdd â chi, a byddant yn gwrando ar eich barn chi a barn eich cynrychiolydd (os oes gennych un). Bydd meddyg y Tribiwnlys yn ymweld â chi cyn gwrandawiad y Tribiwnlys. Bydd yn siarad â'ch clinigwr â chyfrifoldeb a phroffesiynolion eraill sydd ynghlwm wrth eich gofal, a bydd yn darllen adroddiadau am eich amodau cadw a'ch gofal cyn penderfynu a ydych yn ddigon da i gael eich rhyddhau. Bydd y Tribiwnlys yn ysgrifennu atoch cyn pen 7 diwrnod i ddyddiad y gwrandawiad i roi gwybod i chi beth yw ei benderfyniad.

Efallai y byddwch am ofyn i gyfreithiwr eich helpu gyda'r Tribiwnlys. Mae gan yr ysbyty gopi o restr Cymdeithas y Cyfreithwyr o gyfreithwyr arbenigol, neu efallai y byddwch am ddefnyddio eich cyfreithiwr eich hun. Fel rheol, gallwch wneud hynny'n rhad ac am ddim dan y cynllun cymorth cyfreithiol.

Cyfeiriad swyddfa'r Tribiwnlys yw:

Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

## Sut y gallaf i gwyno?

Os byddwch am gwyno am y ffordd yr ydych yn cael eich trin, dylech siarad â'ch clinigwr, nyrs neu weithiwr cymdeithasol. Os nad ydych yn hapus â'r ateb, gallwch ysgrifennu at reolwyr yr ysbyty yn y cyfeiriad canlynol: (Gwybodaeth i'w hychwanegu yn lleol)

Os nad ydych yn hapus ag ateb rheolwyr yr ysbyty, gallwch ofyn i'r Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl am help. Cafodd y Gwasanaeth Adolygu ei sefydlu er mwyn sicrhau bod y gyfraith iechyd meddwl yn cael ei defnyddio'n gywir a bod cleifion yn cael y gofal priodol.

Gallwch ysgrifennu at y Gwasanaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Y Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Tŷ Bevan
Parc Busnes Caerffili
Heol y Fan
Caerffili
CF83 3ED

Neu gallwch ffonio: 029 2092 8858
Neu gallwch ffacs: 029 2092 8904

## Rhoi gwybod i'ch perthynas agosaf

Bydd eich perthynas agosaf yn cael copi o'r daflen hon, ac rydym yn deall mai eich perthynas agosaf yw:

Bydd rhai hawliau penodol gan eich perthynas agosaf dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Maent yn cynnwys:

- yr hawl i ofyn i chi gael eich derbyn i'r ysbyty at ddiben cael asesiad neu driniaeth;
- yr hawl i gael gwybodaeth am eich amodau cadw dan y Ddeddf;
- yr hawl i ofyn i chi gael eich rhyddhau.

I gael mwy o wybodaeth am rôl y perthynas agosaf a'i hawliau, gofynnwch am gopi o'r daflen ynghylch y perthynas agosaf.

## Newid eich perthynas agosaf

Os nad ydych yn credu bod yr unigolyn hwn yn addas i fod yn berthynas agosaf i chi, gallwch wneud cais i'r Llys Sirol yn gofyn i rywun arall gael ei ystyried yn berthynas agosaf i chi. Gall staff yr ysbyty roi taflen i chi a fydd yn egluro hynny.

## Cod Ymarfer Cymru

Mae Cod Ymarfer Cymru yn rhoi cyngor i staff ynghylch Deddf Iechyd Meddwl 1983. Bydd yn rhaid iddynt feddwl am yr hyn y mae'r Cod yn ei ddweud pan fyddant yn gwneud penderfyniadau ynghylch eich gofal. Gallwch ofyn am gael gweld copi o'r Cod, neu gallwch ofyn am gopi o'r llyfryn 'Tawelwch Meddwl' sy'n sôn am God Ymarfer Cymru.

## Mwy o wybodaeth a help

Os oes unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall ynglŷn â'ch gofal a'ch triniaeth, bydd aelod o'r staff yn barod i'ch helpu. Gofynnwch i un o'r staff am esboniad os oes unrhyw beth yn aneglur yn y ffurflen hon, neu os oes gennych fwy o gwestiynau.

Mae'r gwasanaeth eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol ar gael hefyd i'ch helpu a'ch cefnogi.

Cofiwch ofyn os hoffech gael copi o'r daflen hon i'w roi i rywun arall.

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG49865
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg